Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Gogarth

**Ffordd Nant y Gamar**
**Craig Y Don**
**Llandudno**
**LL30 1YE**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Gogarth

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Y Gogarth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori’r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Arbennig a gynhelir |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 270 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 210 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 6 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector ysgolion arbennig a gynhelir yw 46.6%) | 40.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector ysgolion arbennig a gynhelir yw 100.0%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 30/04/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 31/10/2017 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 14/10/2024 |

**Mwy o wybodaeth**

Mae Ysgol y Gogarth yn ysgol breswyl arbennig ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 19 oed. Mae 272 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun datblygu unigol statudol a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae ychydig dros hanner y disgyblion yn awtistig ac/neu mae ganddynt anhawster lleferydd, cyfathrebu ac iaith. Mae gan ychydig llai na thraean ohonynt anhawster dysgu. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion nam ar y golwg neu ar y clyw. Yn ychwanegol, mae gan ychydig iawn o ddisgyblion anhawster dysgu penodol, er enghraifft dyslecsia neu dyscalcwlia.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae ychydig llai na hanner y disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae 29 dosbarth, yn cynnwys ystafell sylfaen yn Ysgol John Bright. Mae 33 o athrawon, yn cynnwys dirprwy a dau bennaeth cynorthwyol a 117 o gynorthwywyr addysgu. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Ionawr 2023 ac roedd yn ddirprwy bennaeth cyn ei phenodi'n barhaol yn Ebrill 2023. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2017.

Mae'r ysgol yn rheoli'r ddarpariaeth breswyl ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Llys Gogarth yn darparu gofal seibiant ar gyfer plant. Yn ychwanegol, gall disgyblion oedran uwchradd ddefnyddio'r ddarpariaeth breswyl fel rhan o'u cwricwlwm ysgol.

Mae Ysgol Y Gogarth yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Y Gogarth wedi wynebu heriau sylweddol ac annisgwyl yn ddiweddar. Yn ystod y cyfnod hwn, mae staff, disgyblion a llywodraethwyr wedi dangos dewrder a dyfalbarhad sylweddol, ac yn parhau i wneud hynny.

Roedd marwolaeth annisgwyl y pennaeth blaenorol yn gryn sioc i staff, disgyblion, cymuned yr ysgol ehangach, ac yn fwy cyffredinol, y gymuned anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru. Yn ychwanegol, ac yn fuan ar ôl marwolaeth y pennaeth, bu farw is-gadeirydd y llywodraethwyr hefyd, a oedd yn gadeirydd hirsefydledig y llywodraethwyr cyn hynny. Yn yr un modd â'r pennaeth, roedd wedi ymrwymo i ddisgyblion a staff Ysgol Y Gogarth.

Roedd yn ofynnol i aelodau o'r corff llywodraethol a'r tîm arweinyddiaeth presennol ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau newydd. Camodd uwch arweinwyr i swyddi'r pennaeth dros dro a'r dirprwy bennaeth dros dro ar unwaith. Gwnaed y swyddi hyn yn barhaol yn Ebrill 2023 a Gorffennaf 2023, yn y drefn honno.

Mae staff ar draws yr ysgol yn rhoi ystyriaeth ddwys i les a diogelwch disgyblion. Mae'r diwylliant diogelu yn gadarn, a phob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion.

Mae staff addysgu yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u hanghenion dysgu ychwanegol. Maent wedi datblygu perthnasoedd anogol â'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymgysylltu'n hapus â'u dysgu ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae llais y dysgwr yn gryfder penodol yn yr ysgol, ac mae hyn yn meithrin cymuned ac ymdeimlad o berthyn yn llwyddiannus lle ***"Mae Plant yn dod yn Gyntaf"***.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn Ysgol y Gogarth yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn cychwynnol ac ar draws ystod o fedrau, o ganlyniad i'r gefnogaeth a'r anogaeth werthfawr a gânt gan staff. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn amrywiol.

Mae arferion dosbarth wedi hen ennill eu plwyf ac yn darparu sefydlogrwydd gwerthfawr mewn llawer o ddosbarthiadau. Caiff y broses trosglwyddo o un gweithgaredd i un arall ei rheoli'n dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwybod, yn deall ac yn dilyn arferion ystafell ddosbarth a disgwyliadau yn rhwydd. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i gymryd rhan yn llawn yn eu dysgu.

At ei gilydd, mae llawer o aelodau o'r staff addysgu yn fodelau rôl effeithiol sy'n mynd ati i wneud eu gwaith â brwdfrydedd ac egni. At ei gilydd, maent yn creu amgylcheddau dysgu croesawgar a chadarnhaol.

Mae profiadau'r cwricwlwm yn datblygu wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, ac mae cynllunio athrawon yn adeiladu ar brofiadau a datblygiad medrau blaenorol. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddysgu datblygu dewisiadau am ffordd iach o fyw, ac mae clybiau helaeth ar ôl yr ysgol, yn cynnwys llawer o weithgareddau chwaraeon, yn ychwanegu at hyn.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mynychu canolfan breswyl ar y safle sy'n eu galluogi i ddatblygu eu medrau byw yn annibynnol mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae'n gynhwysfawr ac wedi'i dylunio'n strategol i arfogi disgyblion â'r medrau a'r annibyniaeth i lywio'u camau nesaf a bywyd oedolyn yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol bartneriaeth hirsefydledig a buddiol ag Ysgol John Bright lle caiff disgyblion eu cynnwys mewn dosbarthiadau prif ffrwd, yn cynnwys astudio ystod o bynciau ar lefel TGAU. Mae'r cwricwlwm ôl-16 yn Ysgol Y Gogarth yn gryfder nodedig.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid allanol i gefnogi anghenion ychwanegol a meddygol disgyblion. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr yn effeithiol iawn ac mae rhieni'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r berthynas hon. Mae'r corff llywodraethol hefyd yn rhoi gwerth uchel ar y berthynas sydd gan yr ysgol â'r rhieni a'r gofalwyr ac yn rhoi blaenoriaeth i gyfathrebu â theuluoedd.

Mae'r gymdeithas rhieni, staff a ffrindiau yn hynod weithgar yn yr ysgol, ac wedi codi arian sylweddol i helpu gwella cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion. Maent wedi ariannu offer beicio i'r ysgol, wedi helpu prynu offer digidol ac wedi rhoi cymorth i brynu bws mini ar gyfer yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi tyfu'n sylweddol mewn niferoedd ers iddi agor 10 mlynedd yn ôl. Er mwyn gwneud lle i ddisgyblion newydd, collwyd ardaloedd addysgu arbenigol ac ystafelloedd therapi. Fodd bynnag, mae cynlluniau datblygedig i ymestyn adeilad yr ysgol. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi sicrwydd y bydd yr estyniad yn darparu ar gyfer y disgyblion presennol. Nid oes unrhyw gynlluniau i gynyddu nifer y disgyblion ar y gofrestr.

Mae'r ysgol yn defnyddio grantiau i gefnogi gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol yn dda, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion a theuluoedd, er enghraifft. Mae absenoldebau staff yn uchel, gyda thri athro a 15 o staff cymorth yn absennol bob dydd trwy gydol 2023-2024, ar gyfartaledd. Dyrennir bron holl gyllideb graidd yr ysgol i gostau staffio; mae'r sefyllfa hon yn anghynaliadwy yn ariannol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu mwyaf effeithiol yn cael eu rhannu ar draws yr ysgol

A2 Gwella dadansoddi gwybodaeth am yr ysgol i lywio blaenoriaethau gwella cydlynus

A3 Parhau i weithio gyda'r awdurdod lleol i wella absenoldeb staff

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol y Gogarth yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn cychwynnol ac ar draws ystod o fedrau, o ganlyniad i’r gefnogaeth a’r anogaeth werthfawr a gânt gan staff.

Mae’r ysgol yn darparu awyrgylch tawel, anogol a chroesawgar ar gyfer disgyblion. Mae’r rhan fwyaf o’r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn datblygu perthnasoedd gwaith cefnogol a chadarnhaol â nhw. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion ac maent yn cefnogi dysgu’r disgyblion yn dda trwy eu helpu i reoli eu hemosiynau a’u hymatebion emosiynol i bobl eraill.

**Addysgu effeithiol**

Mae llawer o staff addysgu yn cynllunio’n effeithiol ar gyfer dilyniant o ran anghenion disgyblion unigol. Pan mae’r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae’r cynllunio a’r gwersi yn cysylltu’n dda â phrofiadau bywyd a diddordebau disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae staff yn annog cyfranogiad gweithredol disgyblion trwy gydol y wers. Mae’r adborth llafar yn uniongyrchol, yn gadarnhaol ac yn gefnogol i ymdrechion disgyblion. Mae hyn yn cymell disgyblion i ddyfalbarhau â’u tasgau dysgu a gwneud cynnydd effeithiol mewn gwersi. At ei gilydd, mae cyflymdra llawer o wersi ac ystod o weithgareddau yn effeithiol o ran cynnal sylw a mwynhad disgyblion.

Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw’r cynllunio a’r addysgu yn cefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn ddigon da. Er enghraifft, caiff gweithgareddau eu harwain yn ormodol gan athrawon, ac ni chaiff ffocws y dysgu, ynghyd â darparu adnoddau, eu teilwra’n ddigonol i ddiddordebau neu alluoedd disgyblion. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu cynnydd ac yn cyfyngu ar eu hymgysylltiad mewn gweithgareddau ystyrlon.

Caiff cynorthwywyr addysgu eu dyrannu’n sensitif ac yn bwrpasol mewn llawer o ddosbarthiadau. At ei gilydd, maent yn darparu cymorth effeithiol, ac yn annog a chymell disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu â’u dysgu ac yn dangos ymddygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, ceir cymorth pwrpasol cyfyngedig gan gynorthwywyr addysgu. Er enghraifft, ni chaiff cynorthwywyr addysgu eu defnyddio’n ddigon da bob amser i ddisgyblion unigol gael cymorth gan athrawon dosbarth.

Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle buddiol i ddatblygu eu medrau rhifedd; er enghraifft, mae staff yn eu hannog i ddefnyddio termau fel ‘un yn fwy’, ‘un yn llai’ a ‘sawl gwaith?’ Mae disgyblion yn llwyddo i ddidoli a pharu gwrthrychau a lliwiau a chyfrif dilyniannau syml yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae disgyblion hŷn yn nodi darnau arian yn gywir ac yn ymarfer defnyddio’r rhain wrth siopa neu yn y siop

goffi ar y safle, a gynhelir gan y disgyblion. Pan fo'n briodol, mae disgyblion mwy abl yn ymuno â gwersi mathemateg a dosbarthiadau prif ffrwd eraill yn Ysgol John Bright.

Mae'r ysgol wedi rhoi dulliau gwerthfawr ar waith i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn llwyddiannus, gan eu galluogi i gymryd rhan yn y cwricwlwm, ymgysylltu â'i gilydd, gwneud dewisiadau a mynegi eu hunain yn effeithiol. Dros gyfnod, daw disgyblion yn gynyddol fedrus o ran defnyddio'u dulliau cyfathrebu i fynegi eu hanghenion, eu teimladau a'u dewisiadau neu ateb cwestiynau athrawon. Er enghraifft, maent yn cyfathrebu'n dda trwy ystumiau, synau, byrddau cyfathrebu, lleferydd neu'n defnyddio technoleg.

Mae dull strwythuredig ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu o ran anghenion a galluoedd disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu a gwella'r medrau hyn yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn adnabod ac yn deall symbolau ac arwyddion i ddangos eu dewis o weithgaredd ac yn datblygu cariad at ddarllen trwy wrando ar yr athro dosbarth yn darllen stori. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn darllen ar goedd yn hyderus ac yn ysgrifennu eu cyfarwyddiadau eu hunain ar gyfer rysáit coginio.

Mae'r ddarpariaeth ddwyieithog yn yr ysgol yn gryfder.

### Y cwricwlwm a chynnydd disgyblion

Mae profiadau'r cwricwlwm yn datblygu wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, ac mae cynllunio athrawon yn adeiladu ar brofiadau a datblygiad medrau blaenorol. Mae cyflwyno dysgu wedi'i seilio ar feysydd dysgu a phrofiad (MDPh) ar gyfer disgyblion oedran uwchradd wedi bod yn ddatblygiad effeithiol yn y maes hwn yn ddiweddar, gan eu galluogi i fod yng nghwmni athrawon pwnc arbenigol a datblygu eu hyder i bontio ar draws yr ysgol a phrofi gwahanol ystafelloedd dosbarth a dulliau addysgu.

Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddysgu datblygu dewisiadau am ffordd iach o fyw gyda lefelau uchel o ymgysylltu wrth ddefnyddio cyfleusterau fel y cae chwarae pob tywydd, dringo wal a beiciau wedi'u haddasu mewn ffyrdd pwrpasol, wedi'i gydlynu gan yr arweinydd llythrennedd corfforol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddysgu am ddewisiadau bwyd iach a pharatoi bwyd. Ceir arlwy helaeth o glybiau ar ôl yr ysgol, yn cynnwys llawer o weithgareddau chwaraeon. Yn ychwanegol, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mynychu canolfan breswyl ar y safle, sy'n eu galluogi i ddatblygu eu medrau byw yn annibynnol mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae'r nodweddion hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae cysylltiadau agos â Gyrfa Cymru yn darparu cyngor, rhyngweithio â chyflogwyr, ymweliadau â gweithleoedd ar gyfer disgyblion, a lleoliadau profiad gwaith mewn ychydig o achosion. Mae'r ysgol yn cynnal digwyddiadau gyrfaoedd blynyddol Ysgolion Arbennig Gogledd Cymru lle mae hyd at 30 o gyflogwyr yn ymweld ac yn cynnig profiadau uniongyrchol. Mae disgyblion yn elwa'n fawr ar y cyfle hwn, gan ennill mewnwelediadau ymarferol ac amlygrwydd i lwybrau gyrfa amrywiol fel peirianneg a chreu bomiau bath.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn gwisgo'u siacedi yn annibynnol wrth fynd allan i chwarae ac yn eu rhoi i hongian pan fyddant yn dychwelyd i'r ystafell ddosbarth. Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i aros yn lleoliad preswyl yr ysgol, sef Llys Gogarth. Mae disgyblion yn datblygu medrau gwerthfawr byw yn annibynnol, fel cymryd cyfrifoldeb am eu gofal personol eu hunain gartref neu yn y gymuned. Ymhellach, mae disgyblion hŷn yn gwella'u medrau mewn meysydd sy'n cefnogi eu cyfnod pontio i'w cyrchfannau yn y dyfodol yn effeithiol. Maent yn ymarfer medrau yn gysylltiedig â gwaith ac yn ystyried eu diogelwch personol yn y gymuned. Caiff disgyblion sy'n mynychu Ysgol John Bright eu cefnogi'n dda i ddatblygu medrau dysgu'n annibynnol.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel yn llwyddiannus. Cyflwynir hyn trwy ddull amlasiantaethol sy'n cael ei gydlynu gan yr ysgol. Atgyfnerthir negeseuon allweddol ar gyfer disgyblion ar draws y cwricwlwm ac yn y gwasanaeth ac yn ystod amser bugeiliol i gefnogi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion ymhellach. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o fwlio canfyddedig yn dda. Mae'r dulliau hyn yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i aros yn ddiogel a gwneud dewisiadau mwy gwybodus.

Ceir rhaglen addysg cydberthynas a rhywioldeb gynhwysfawr sy'n cynorthwyo disgyblion ym mhob cyfnod i ddeall perthnasoedd iach ar lefel sy'n briodol i'w hanghenion.

**Ciplun: Cefnogi anghenion disgyblion trwy weithio amlddisgyblaethol**

Ar draws yr ysgol, mae ystod o dimau cymorth ysgol gyfan sy'n darparu cymorth ar gyfer lleferydd ac iaith, llythrennedd corfforol, cyfathrebu cynyddol ac amgen, anghenion meddygol ac ymddygiadol disgyblion. Mae'r cydweithwyr hyn yn cydweithio'n effeithiol ag athrawon, cynorthwywyr addysgu a gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi addysgu a dysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Er enghraifft, mae'r ysgol yn cofnodi a monitro'r holl ddigwyddiadau ymddygiad yn effeithiol iawn, yn cynnwys digwyddiadau'n ymwneud ag ymyriadau corfforol. Mae'r arbenigedd gwerthfawr hwn yn cynorthwyo'r tîm addysgu mewn modd cadarnhaol i ddeall achosion gwaelodol ymddygiadau heriol a'r swyddogaethau y mae ymddygiadau yn eu rhoi i'r disgybl, ac yn darparu strategaethau defnyddiol i helpu staff a disgyblion yn y dosbarth. O ganlyniad i arfer fyfyriol ystyriol gan staff gyda chymorth gwerthfawr gan y tîm ymddygiad, dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn dangos gwelliant sylweddol yn y digwyddiadau'n ymwneud ag ymddygiadau sy'n herio.

## Cwricwlwm ôl-16

Mae'r cynnig cwricwlwm ôl-16 yn gryfder nodedig. Mae'n drylwyr ac wedi'i dargedu'n effeithiol i baratoi disgyblion ar gyfer y medrau a'r annibyniaeth y bydd eu hangen arnynt i lywio'u camau nesaf a'u bywyd fel oedolyn. Mae llawer o ddisgyblion yn y sector ôl-16 yn dilyn cyrsiau fel dylunio gwefannau, cerbydau modur a lletygarwch ac arlwyo mewn coleg lleol. Mae'r profiad hwn yn eu helpu i ddatblygu medrau gwerthfawr, ymgyfarwyddo ag amgylchedd y coleg a gwneud dewisiadau gwybodus

am eu hastudiaethau yn y dyfodol. Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn dilyn cymwysterau TGAU. Pan fydd disgyblion yn gwneud rhan o'u dysgu mewn darpariaeth oddi ar y safle, cânt eu cefnogi'n addas gan staff Ysgol Y Gogarth.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth hirsefydledig a buddiol gydag Ysgol John Bright. Pan fo'n briodol, caiff disgyblion eu cynnwys mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae disgyblion hŷn yn dewis ac yn dilyn cyrsiau TGAU. Mae disgyblion yn elwa ar gefnogaeth gan gynorthwywyr addysgu ac athro arweiniol Ysgol Y Gogarth. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn defnyddio'r ystafell sylfaen i ddysgu'n annibynnol, dilyn cyrsiau achrededig eraill a derbyn cyngor ac arweiniad unigol. Wedi iddynt gwblhau eu cyrsiau TGAU, mae cyfleoedd i ymestyn eu hastudiaethau ar lefel 3 yn Ysgol John Bright yn gyfyngedig iawn, yn rhannol oherwydd yr oedran y mae disgyblion yn eu cwblhau.

Caiff cyrchfannau ymadawyr eu plotio'n addas, ac mae cynnydd ac ymgysylltiad yn eu blwyddyn gyntaf ar ôl yr ysgol yn cael eu monitro i lywio cynllunio ar gyfer cyrchfannau ymadawyr yn y dyfodol. Yn nhair carfan olaf disgyblion Blwyddyn 14, symudodd bron pob un o'r dysgwyr ymlaen i gamau nesaf priodol.

**Llais y disgybl**

Mae llais y disgybl yn Ysgol y Gogarth yn gynhwysol iawn ac yn gryfder sylweddol yn yr ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn cynnwys disgyblion etholedig sy'n ymfalchïo'n fawr yn eu rôl bwysig yn yr ysgol. Mae'r capten a'r is-gapten yn dangos ymrwymiad clir i gofnodi llais pob un o'r dysgwyr yn yr ysgol, ac o gwmpas yr ysgol, yn cynnwys gweithredu fel eiriolwr ar gyfer disgyblion sy'n llai abl i gyfathrebu. Er enghraifft, cyfrannodd pob un o'r disgyblion at ddatblygu'r hyb cymunedol newydd, Tŷ Morgan, trwy rannu eu syniadau trwy fwrdd hwyliau sydd wedi'i leoli yn y caffi. Mae disgyblion yn yr ysgol yn dangos balchder a dewrder mawr yn eu gwaith yng nghymuned yr ysgol. Caiff ychydig o ddisgyblion gyfle i gymryd rhan yn y broses gyfweld ar gyfer penodi staff newydd hefyd, yn cynnwys penodi'r pennaeth.

Mae'r Cyngor Ysgol wedi cwblhau gwaith yn ddiweddar hefyd i adolygu disgwyliadau'r ysgol, ac wedi chwarae rôl arweiniol mewn dylunio'r logo ysgol newydd ar ffurf blodyn, gan gynrychioli bod pob disgybl yn Ysgol y Gogarth yn ffynnu.

Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u hawliau ac yn rhannu gwybodaeth yn gysylltiedig ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rheolaidd trwy wasanaethau, gwaith yr ysgol ac arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol.

**Ciplun: Datblygu cysylltiadau effeithiol â theuluoedd a'r gymuned**

Mae Ysgol y Gogarth yn ysgol fro effeithiol iawn. Mae staff yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â theuluoedd, rhieni a gofalwyr, disgyblion ac asiantaethau allanol. Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, er enghraifft, yn darparu cymorth i deuluoedd naill ai trwy gyfeirio at sefydliadau a gwasanaethau a allai fod o gymorth, neu drwy ddarparu gweithdai i aelodau o deuluoedd eu mynychu. Maent yn cyfarfod â theuluoedd yn rheolaidd i drafod materion a allai godi, ac yn cynorthwyo rhieni a gofalwyr i weithio gyda'r ysgol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae hyn yn cynnwys pan fydd heriau yn gysylltiedig â phresenoldeb ysgol, gan gynorthwyo'r

rhieni yn unigol gyda ffocws ar nodi a goresgyn y rhwystr rhag presenoldeb. Caiff y gwaith hwn effaith gadarnhaol ar gynyddu ymglymiad rhieni a gofalwyr yn addysg eu plentyn yn yr ysgol ac adref, fel ei gilydd.

Mae'r cyngor eco yn cyfarfod bob wythnos ac yn cynnwys gwirfoddolwyr sy'n rhieni yn gweithio ochr yn ochr â'u plentyn gyda'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gwirfoddolwyr sy'n rhieni.

Gellir cael mwy o wybodaeth am waith Ysgol y Gogarth yn yr astudiaeth achos gan Lywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/astudiaeth-achos-fideo-am-ysgol-fro-ysgol-y-gogarth-conwy

**Addasu yn unol â heriau a newid sylweddol**

Mae holl aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth yn parhau i addasu yn unol â'u cyfrifoldebau newydd. Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr yn cadw cyfrifoldebau etifeddol sy'n weithredol o ran eu natur, sy'n cyfyngu ar yr amser y gallant ei neilltuo i ganolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yr ysgol.

Ceir diwylliant sefydledig o ymddiriedaeth rhwng y corff llywodraethol a thîm arweinyddiaeth yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn meddu ar ystod addas o fedrau a phrofiad sy'n eu galluogi i gynnig cymorth a her addas i arweinwyr yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau addysgiadol gan y pennaeth. Fodd bynnag, mae diffyg manylder a manwl gywirdeb yn y wybodaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r corff llywodraethol i gefnogi a herio uwch arweinwyr yn llawn.

Mae'r pennaeth wedi trafod taith wella'r ysgol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn feddylgar, ac wedi bod yn eithriadol o ystyriol o feddyliau a safbwyntiau arweinwyr canol, disgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi parhau i weithredu blaenoriaethau a gytunwyd yn y gorffennol, a rhai newydd.

Mae arweinwyr wedi cynnal ystod o weithgareddau sicrhau ansawdd. Yn unigol, mae canlyniadau'r gweithgareddau hyn yn amlygu'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella canfyddedig ar draws yr ysgol gan staff, rhieni a rhanddeiliaid eraill. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu coladu a chyfosod y wybodaeth a gesglir yn systematig. O ganlyniad, nid yw blaenoriaethau gwella'r ysgol yn canolbwyntio cystal ag y gallent ar feysydd i'w gwella a nodwyd. Yn ychwanegol, nid yw'r amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu a nodwyd gan y tîm arolygu yn ymddangos fel maes i'w wella. Nid yw rôl y corff llywodraethol mewn hunanwerthuso wedi'i datblygu'n ddigonol.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael eu pennu'n briodol i gefnogi'r addysgu a lles disgyblion. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn parhau i wynebu heriau staffio ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar gysondeb mewn addysgu a dysgu. Caiff absenoldeb staff effaith sylweddol ar gyllideb yr ysgol.

Ar gyfartaledd, roedd tri athro ac 18 staff cymorth yn absennol yn ddyddiol trwy gydol 2023-2024. Mae arweinwyr yn rheoli'r sefyllfa hon yn sensitif mewn partneriaethau â'r awdurdod lleol.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi gweithredu rhaglen dysgu proffesiynol ddefnyddiol, a ddarparodd gyfleoedd gwerthfawr i staff addysgu rannu arfer orau a gweithio mewn grwpiau bach. Gwerthusodd arweinwyr effaith y ddarpariaeth hon cyn y pandemig, ac maent wedi parhau i ddefnyddio'r dull hwn yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae arweinwyr yn ystyriol o les staff yn ystod yr anawsterau diweddar, ac yn teilwra'u cymorth i staff unigol yn sensitif, gan eu helpu i ddatblygu'r gallu i wella agweddau ar eu haddysgu. Mae dysgu proffesiynol diweddar yn canolbwyntio'n fuddiol ar helpu staff i wella meysydd, fel lles disgyblion a chefnogi'r rhai ag anghenion meddygol neu anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â darparwyr eraill, fel ysgolion arbennig a sefydliadau lleol sy'n darparu addysg gychwynnol athrawon. Mae hyn yn helpu cefnogi datblygiad athrawon newydd ac yn helpu datblygu eu harfer broffesiynol yn dda.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff ar bob lefel a cham o'u gyrfa i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth, er enghraifft trwy hyfforddi, arsylwi cymheiriaid a rhaglenni allanol sy'n ceisio datblygu arfer ragorol. Fodd bynnag, o ganlyniad i effaith absenoldeb staff, mae gallu staff i rannu arfer orau gyda chydweithwyr wedi bod yn gyfyngedig. Yn ychwanegol, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu prosesau i werthuso effaith y datblygiad proffesiynol mwy diweddar hwn.

Mae'r ysgol yn defnyddio grantiau i gefnogi gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol yn dda, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion a theuluoedd, er enghraifft. Fodd bynnag, mae bron holl gyllideb graidd yr ysgol wedi'i chlustnodi ar gyfer costau staffio. Mae hyn yn anghynaliadwy.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  16/12/2024